# Sigma a Seryddiaeth

gan
DAFYDD WHITESIDE THOMAS

Yn ddiweddar cefais fenthyg cyfrol o *Cymru* am y flwyddyn 1905. Ar y flaen-ddalen roedd llofnod y perchennog, Caradog Mills, a'r dyddiad, *'Nov. 26/1906'*. Ar weddill y flaen-ddalen mae tua dwsin o doriadau

DAN OLYGIAETH
OWEN M. EDWARDS, M.A., RHYDYCHEN.

RHYFEDDODAU
RADIUM

GAN

CARADOC MILLS

*(SIGMA).*

CYFLWYNEDIG I DDARLLENWYR "CYMRU'R PLANT," AC ERAILL GARANT ASTUDIO Y PETHAU O'U CWMPAS.

CYHOEDDEDIG GAN YR AWDWR.

1907.

papur newydd wedi eu gludo; rhai wedi eu dyddio. Maent yn cyfeirio at ddarlithoedd a chyfarfodydd a gynhaliwyd gan Caradog Mills yn ystod 1905-06. Yn anffodus, nid yw enwau'r papurau wedi eu cofnodi ac, yn aml iawn, mae lleoliadau'r darlithoedd wedi eu torri allan o'r adroddiadau.

Roedd Caradog Mills yn ysgrifennu erthyglau i *Cymru* ar Seryddiaeth o dan y ffugenw 'Sigma'. Cadarnheir hyn yn un o'r toriadau sy'n adroddiad ar gyfarfod yng Nghymdeithas Lenyddol Capel Horeb (W) dan lywyddiaeth Dr Owen. Nid yw enw'r pentref yn cael ei gynnwys. Dyma ran o'r adroddiad: 'Cafwyd darlith odidog gan Mr Caradog Mills (Sigma), Plas Helyg, a'i destun oedd "Radium" . . . Mae yn ddigon hysbys fod ffrwyth ei ysgrifell yn cyflenwi Cylchgronau Safonol Cymru, ac adnabyddir ef drwy Gymru benbaladr wrth yr enw "Sigma" . . . Diamau fod dyfodol i'r ddarlith hon . . . gan ei bod yn ddidd[illegible]er yn [illegible]neud â dyr[illegible] [illegible] amlwg [illegible] yn [illegible]u i'r *Tr*[illegible]'r [illegible]Mae un amlwg allan o'r *Winllan*, ac yn cyfeirio at ei draethawd ar 'Radium': '. . . adolygiad uchel iawn gan lenor o awdurdod ar ysgrif y llenor ieuanc athrylithgar "Sigma" . . . Fe wyr darllenwyr y *Winllan* am ei allu drwy y gyfres alluog ac addysgiadol "Ymhlith y Bydoedd Pell".' Cyhoeddwyd y traethawd ar 'Radium' fel llyfryn yn 1907 ac yna cyhoeddodd 'Y Bydoedd Pell' yn 1914.

Ym mis Ebrill 1905 ceir adroddiad byr am lwyddiant Caradog Mills, Llanrwst yn sicrhau'r pedwerydd safle yn nosbarth hynaf Arholiadau Cymanfa Ddirwestol Gwynedd. Mae'n amlwg nad oedd y cystadlu wedi ei gyfyngu i Wynedd, oherwydd yn yr un adroddiad ceir cyfeiriad at ymgeiswyr o Riwabon.

Nid yn Gymraeg yn unig roedd Caradog Mills yn darlithio. Mae un adroddiad yn sôn amdano'n darlithio yn y Co-operative Hall, Penmaen-mawr. *'Col. Darbyshire continues to run his free entertainments at the Hall on Saturday evenings, and they continue to attract packed houses. Last Saturday night the principal item of the programme was a singularly interesting lantern lecture on astronomy given by Mr Caradog Mills, Llanrwst.'*

Mae'n sicr fod y *'magic lantern'* yn atyniad ychwanegol i unrhyw ddarlith, ac yr oedd Caradog Mills yn amlwg yn gwneud defnydd ohoni. Ar ddechrau 1906 roedd ym mhentref Dyserth yn darlithio ar Seryddiaeth, a'r Coronation Hall yn orlawn. 'Cawsom araith odidog. Daeth Miss B. Mills yno i'w gynorthwyo gyda'r *magic lantern*, ac yr oedd yntau yn egluro y darluniau yn fanwl iawn. Cawsom awr a hanner hynod ddifyr, a gwersi buddiol ar y bydoedd uwchben.'

Flwyddyn yn gynharach bu Caradog Mills ar daith i'r Swistir, oherwydd yn Hydref 1905 roedd yn darlithio ar y testun, 'O Lanrwst i Lucerne' mewn cyfarfod yn nhref Llanrwst. Unwaith eto, roedd yn defnyddio'r *magic lantern*. Y tro hwn, ei dad, E. Mills oedd yn gyfrifol am y lluniau — *'who very capably manipulated the lantern'*. Mae'n ymddangos fod y tad yn ŵr blaenllaw yn Nyffryn Conwy, oherwydd ar ddalen gefn y gyfrol o *Cymru*, ysgrifennwyd mewn pensil, *'photo of E. Mills, J.P. taken by Eliot and Fry'*.

Mae toriadau eraill ar y flaen-ddalen yn cyfeirio at ddarlithoedd cyffelyb i Gylchdaith Ysgolion Sul Dyffryn Conwy, a chymdeithasau o chwarelwyr ym Mhenmachno. Dau doriad yn unig nad ydynt yn crybwyll darlith o eiddo Caradog Mills. Mae'r cyntaf yn cofnodi dadl a gynhaliwyd yng Nghymdeithas Lenyddol Seion (Llanrwst mae'n debyg) ar y testun, 'Mae rhyfeloedd yn fanteisiol i wareiddiad cenedl'. Roedd Caradog Mills o blaid y gosodiad, a chafwyd ganddo, 'araith gref a meistrolgar', ond colli'r ddadl a wnaeth ar bleidlais.

# Y BYDOEDD UWCHBEN

Llawlyfr ar Seryddiaeth

GAN

CARADOC MILLS

LLANRWST

CYHOEDDEDIG GAN

P. JONES-ROBERTS, YN Y LLYFRFA, BANGOR

1914

Mae'r toriad olaf yn adolygiad yn Saesneg gan Ernest Rhys ar y cylchgrawn *Cymru'r Plant*. Mae'n cyfeirio yn yr adolygiad at erthyglau gan Sigma ar y sêr a'r lleuad ym mis Medi. *'Nothing could be better of its sort than his description of the Lleuad Nawnos Oleu.'* Yr hyn sy'n ddiddorol hefyd ynglŷn â'r adolygiad yw'r ffaith fod yr awdur yn cymharu gwerth *Cymru'r Plant* â

*Caradog Mills (ar y dde)*



chylchgronau eraill yn yr iaith Saesneg. Fel hyn mae'n diweddu ei lith: *'Youngsters nurtured on "Cymru'r Plant" will hardly care to decline afterwards on the inane pages of the "Halfpenny Cigarette" or the "Penny Society Ruffler".'*

Byddai'n ddiddorol cael mwy o hanes bywyd a gwaith Caradog Mills a dylanwad y teulu ar dref Llanrwst a'r cylch. Bu Caradog Mills farw ar 6ed Rhagfyr 1950 yn 67 mlwydd oed a chladdwyd ef ym mynwent Eglwys y Santes Fair, Llanrwst.